Gair gan y Maer

Llongyfarchiadau
Dymunodd y Maer yn dda i ddau gwpwl o'r dref ar achlysur dathlu penblwyddi priodasol arbennig yn ddiweddar. Y cyn Faer a Maeres y dref,
Ron a Mair Evans a Eddie ac Enid Griffith.

Parêd Dewi Sant
Cynhelir ar ddydd Sadwrn yr 2ail o Fawrth, gyda'r orymdaith yn cychwyn am 10:30 y bore o Swyddfa Ardal Dwyfor, Ffordd y Cob. Taer erfynnhir am wirfoddolwyr i stiwardio, rheoli traffig casglu arian. Cysylltwch gyda'r Clerc os gallwch chi neu gyfeillion gynorthwyo.

Baneri Stryd
Eleni, mae baner y Ddraig Goch yn dathlu 60 mlynedd fel baner swyddogol. Er wrth gwrs i'r ddraig goch ymddangos ymhell nol i ddyddiau Cadwaladr ap Cadwallon, Brenin Gwynedd yn 655 oed Crist. Gofynnir yn garedig am wirfoddolwyr i'w gosod. Cysylltwch gyda'r Cynghorydd Alan Williams neu'r Clerc. Diolch i bawb fu'n cynorthwyo i dynnu'r baneri Nadolig.

Eric Wyn Roberts
7fed Chwefror, 2019